



Cartrefi  
Cymunedol  
Cymru

Community  
Housing  
Cymru

I gael mwy  
o wybodaeth  
ewch i'n  
[gwefan](#)

CCC ar gyfer  
aelodau bwrdd

# Sut y gall Cartrefi Cymunedol Cymru eich helpu



Cartrefi Cymunedol Cymru yw llais  
cymdeithasau tai yng Nghymru.

Rydym yn cynrychioli cymdeithasau  
tai nid er elw sy'n darparu cartrefi i tua  
10% o boblogaeth Cymru. Y weledigaeth  
a rannwn yw gwneud Cymru yn wlad lle  
mae tai da yn hawl sylfaenol i bawb.

Mae ein haelodau yn gweithio ledled  
Cymru, gan ddarparu cartrefi a  
gwasanaethau i ystod eang o bobl.

Fel eu corff masnach, rydym yn ymladd am  
y pethau maent eu hangen i gefnogi eu  
cymunedau, ac i sicrhau y gallwn gyda'n  
gilydd gyflawni ein gweledigaeth.

**Ewch i ochr arall y ddalen i weld  
sut ydym yn gweithio gydag  
aelodau bwrdd.**



## Cymryd rhan

Fel aelod o fwrdd cymdeithas tai yng Nghymru, caiff eich aelodaeth o CCC ei gynnwys fel rhan o aelodaeth gyffredinol eich sefydliad. I gofrestru a chael yr wybodaeth ddiweddaraf ar ein gwaith, digwyddiadau a chyfleoedd i gymryd rhan, ewch i'n gwefan.

**Ewch i [chcymru.org.uk/cy/register](https://chcymru.org.uk/cy/register)**

Cofiwch adael i ni wybod eich bod yn aelod bwrdd fel y gallwn wneud yn siŵr ein bod yn eich diweddarau am ein gwaith ar gyfer aelodau bwrdd.



# Sut mae CCC yn gweithio gydag aelodau bwrdd?

## Cymunedau aelodau

Mae ein cymunedau aelodau yn rhoi lle i weithwyr proffesiynol ar draws y sector i ddod ynghyd wyneb yn wyneb o leiaf ddwywaith y flwyddyn i ganolbwyntio ar faterion allweddol, edrych i'r dyfodol, rhannu arfer da a rhwydweithio. Un o'n cymunedau aelodau allweddol [yw grŵp cadeiryddion ac is-gadeiryddion bwrdd](#), a sefydlwyd i gefnogi cadeiryddion ac is-gadeiryddion byrddau ein haelodau. Daw'r grwpiau hyn ynghyd wyneb yn wyneb o leiaf ddwywaith y flwyddyn i ganolbwyntio ar faterion allweddol.



## Digwyddiadau ar gyfer aelodau bwrdd

Yn 2023 fe wnaethom ehangu ein gwaith i gefnogi aelodau bwrdd. Rydym yn cynnal digwyddiadau rhwydweithio wyneb yn wyneb ar gyfer aelodau bwrdd yn ne a hefyd ogledd Cymru. Mae'r rhwydweithiau hyn yn gyfarfodydd anffurfiol sy'n galluogi aelodau bwrdd i rannu profiadau gyda'u cymheiriaid a derbyn diweddariad ar bynciau hanfodol busnes. Rydym wedi cyflwyno cyfres newydd o sesiynau gwbyodaeth ar-lein a dargedwyd yn benodol at aelodau bwrdd, yn rhoi gwbyodaeth gyffredinol ar y sector a hefyd bynciau mwy manwl.

**Ewch i'r adran [Beth sydd Ymlaen ar ein gwefan i archebu lle yn ein digwyddiadau diweddaraf.](#)**



**Rydym hefyd wedi lansio grŵp WhatsApp ar cadeiryddion ac is-gadeiryddion bwrdd – mae manylion sut i ymuno isod.**



## Hyb Tai

Gwefan CCC yw cartref ein hyb tai. Mae'r hyb yn rhoi mynediad i wybodaeth am feysydd allweddol o waith polisi yr ydym yn canolbwyntio arnynt ar hyn o bryd. Mae hefyd yn cynnwys deunydd cefnogi, i wneud newyddion a chanllawiau cysylltiedig y sector ar gael i'n haelodau.

**Edrychwch ar yr [Hyb Tai](#) ar ein gwefan.**



## Rhaglen cynadleddau

Cynhaliwn bedair cynhadledd bob blwyddyn i ddod â'r sector ynghyd:

- Cynhadledd Llywodraethiant ym mis Mawrth
- Un Gynhadledd Fawr ym mis Gorffennaf
- Cynhadledd Cyllid ym mis Hydref
- Cynhadledd Flynyddol ym mis Tachwedd

Mae croeso i aelodau bwrdd fynychu ein cynadleddau, gyda'r Gynhadledd Llywodraethiant yn neilltuoel o berthnasol.

**Gallwch weld ein [Cynadleddau nesaf](#) ar ein gwefan.**



## Cymryd rhan

Os hoffech fod yn rhan o grŵp WhatsApp cadeiryddion ac is-gadeiryddion bwrdd â: [memberservices@chcymru.org.uk](mailto:memberservices@chcymru.org.uk), gan roi eich enw, cyfeiriad e-bost, rhif ffôn symudol, swydd a pha gymdeithas tai yr ydych yn aelod o'i bwrdd.